# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

Y Cyngor – Eitem 6 - Cwestiynau

**EITEM 6 – CWESTIYNAU**

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel**

Mam , Dad a Magu

Rwyf yn llongyfarch yn ddiffuant swyddogion am greu adnodd mor werthfawr, defnyddiol a chlodwiw â phodlediad Mam, Dad a Magu.

Rwyf yn falch o glywed bod barn defnyddwyr yn cael ei gyrchu yn rheolaidd.

Nodir fod pryder wedi ei godi parthed priodoldeb y teitl 'Mam, Dad a Magu' ar sawl achlysur. Rwyf yn derbyn y rhesymeg fod angen cynyddu ymgysylltiad tadau. Gwyddom fod tadau, fel mamau, yn llwyddiannus wrth gynnal teuleuoedd sydd ddim yn dilyn y patrwm traddodiadol, heteronormatif, a gynigir yn y teitl, yn deilwng ein cefnogaeth ac i gael eu dathlu.

Serch hynny, mae'r pryder bod teitl y podlediad yn cyfleu neges heteronormatif yn parhau, ac y gellid ei ddarllen i fod yn waharddol. Canlyniad hyn fyddai methiant i fod yn gynhwysol o'r amrywiaeth o deuluoedd sydd yn ein cymdeithas.

Nodir nad yw methiant y teitl yn adlewyrchiant o lwyddiant y cynnwys a gwaith caled ein swyddogion.

Mae ysgolion Gwynedd yn sôn am "y teulu" ers tro. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol. A wneith Cyngor Gwynedd ddilyn yr enghraifft yma, sydd wedi ei ddangos i fod yn effeithiol, a newid y teitl a sôn am "Magu teulu"?

**Ateb – Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Diolch am y cwestiwn, Elin, a diolch am gymryd diddordeb yng ngwaith yr Adran Plant ac yng ngwaith penodol y gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar. Rwy'n falch iawn hefyd o'r ganmoliaeth ar y gwaith da sydd yn mynd rhagddo ac mae'n braf gallu datgan bod llawer o sylw cadarnhaol ac ymateb da wedi bod i'r podlediad. Mae gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Gwynedd yn arwain yn genedlaethol ar ddatblygu y math hwn o bodlediad cyffrous ac mae'n hyfryd ein bod yn cael y cyfle i ddathlu hynny.

Yng nghyd-destun y cwestiwn, mae'n werth cadarnhau ein bod yng Nghyngor Gwynedd yn croesawu ac yn rhoi gwasanaeth i bob math o deuluoedd nid jyst rhai traddodiadol, heteronormatif, ac ein bod yn credu bod amrywiaeth a chymdeithas groesawgar yn ran hanfodol o'r sir ac o waith y Cyngor Nid oes bwriad o gwbl i hybu syniadau heteronormatif yn y teitl, dim ond bwriad i sicrhau fod tadau yn cael eu cynnwys, yn ogystal a mamau.

Bu cryn drafod gyda grwpiau ffocws o ddefnyddwyr gwasanaeth ar y pynciau trafod, holl syniad y podlediad, a'r enw yn gyffredinol. Drwy hynny daeth pynciau amrywiol i'r fei, fel bronfwydo, cwsg a pharatoi plant ar gyfer yr ysgol. Un pwnc pwysig, yn ôl y grwpiau trafod hyn, oedd cysylltiad tadau gyda magu a materion iechyd meddwl tadau ac yn y blaen. Yn ogystal daethpwyd at yr enw gwreiddiol, sef "Mam a dad a magu".

Codwyd mater yr enw eisoes, gan godi materion cyffelyb i'r hyn yr wyt ti'n eu codi heddiw. Yn sgil hynny, bu trafod pellach gyda grwpiau defnyddwyr a chytunwyd y byddai

newid yr enw yn briodol, drwy dynnu'r "a" a'i newid o "Mam a dad a magu" i "Mam, dad a magu". Newid bach, ond un oedd galluogi cynhwysiad ehangach. Ers hynny, nid oes neb o'r cyhoedd na'r defnyddwyr wedi tynnu sylw at yr enw, ar wahân i ambell i dad yn croesawu'r ffaith bod tadau yn cael eu cynnwys.

Fel rhan o'n gwaith pellach gyda thadau, sylweddolwyd bod pob un o'n swyddogion cefnogi teuluoedd yn fenywaidd, ac o'r herwydd rydym ar fin cyflogi Swyddog Tadau i gyd-fynd gyda'r gwaith o gefnogi grwpiau tadau yn ein Sir.

Mae'r gyfres hon o bodlediadau (chwech ohonynt) ar fin dod i ben ac mae'n rhy hwyr i newid y gyfres hon. Ond rhoddaf y gwarant hwn i'm cyd-gynghorwyr, sef y byddwn yn trafod hyn eto efo'r grwpiau defnyddwyr cyn dechrau ail gyfres a chymryd y cyfle i ystyried enw newydd. Nid oes sicrwydd y bydd ail gyfres, gan fod y costau'n sylweddol, ond os y bydd mi wnawn sicrhau adolygiad trylwyr o'r enw.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts**

Yn sgil y cynnydd diweddar mewn tensiynau rhyngwladol ac agweddau cynyddol filwrol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac o ystyried y ffaith fod safleoedd niwclear yn cael eu hystyried yn dargedau blaenllaw mewn unrhyw wrthdaro milwrol – gan gynnwys safleoedd fel Trawsfynydd – pa sicrwydd sydd gan bobl Gwynedd fod y Cyngor yn gweithredu i sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad pellach sy'n gysylltiedig â niwclear ar safle Trawsfynydd, ac y caiff y safle ei ddadgomisiynu ar unwaith er mwyn diogelu'r ardal ar gyfer y dyfodol?

**Ateb –Yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Y Cynghorydd Medwyn Hughes**

Mae'r gwaith dadgomisiynu yn parhau ar safle Trawsfynydd. Mae'r gwastraff ymbelydrol lefel uchel i gyd wedi cael ei gludo o safle Trawsfynydd er mwyn cael ei drin a'i ail brosesu yn Sellafield yn Cumbria ers dros ugain mlynedd. Mae'r safle wedi bod yn canolbwyntio ar brosesu gwastraff ymbelydrol canolraddol ers hynny ac maent bron a cyrraedd pen y daith drwy brosesu'r gweddillion gwastraff o'r celloedd o fewn adeilad y pyllau a'u cludo i'r storfa bwrpasol ar safle. Bydd y gwastraff hwn yn cael ei storio yn ddiogel ar y safle tan bydd storfa gwastraff ymbelydrol y DU yn cael ei adeiladu dros y degawdau nesaf. Mae ymbelydredd lefel isel yn parhau yn ffabrig strwythur yr adweithyddion, ac mae rhaglen waith mewn lle i drin a gwaredu'r gwastraff yma er mwyn cyrraedd y nod o adael y safle yn ddiogel i'r cyhoedd a'r amgylchedd. Mae gwaith dadgomisiynu wedi cael ei raglennu ar y safle hyd at 2060 yn ôl y cynlluniau diweddaraf gan NRS.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) lle mae NRS, sydd yn rheoli'r safle ar ran Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, yn adrodd ar y gwaith dadgomisiynu; a diogelwch safle ydi'r flaenoriaeth ym mhob trafodaeth. Dyma ddatganiad gan NRS:

*'Mae iechyd a diogelwch ein gweithlu, y cyhoedd a'r amgylchedd yn sylfaenol i'n busnes yn NRS. Mae'r holl weithrediadau ar safle Trawsfynydd yn cael eu cyflawni i'r safonau diogelwch uchaf ac yn cael eu goruchwylio gan reoleiddiwr diogelwch niwclear annibynnol y Deyrnas Unedig, y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR). Mae'r holl ollyngiadau ymbelydrol i'r amgylchedd yn cael eu rheoli i leihau ymbelydredd gan ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael ac yn cael eu goruchwylio gan reoleiddiwr amgylcheddol annibynnol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru.*

*Mae gan bob gweithrediad a chyfleuster ar safle Trawsfynydd achos diogelwch niwclear cysylltiedig i sicrhau bod mesurau rheoli yn cael eu mabwysiadu i leihau'r risg i'n gweithlu, y cyhoedd a'r amgylchedd o unrhyw ddigwyddiadau rhesymol rhagweladwy sy'n ymwneud ag ymbelydredd, gan gynnwys gweithredoedd terfysgol neu ymosodiadau gan bartïon gelyniaethus.*

*Mae record ddiogelwch degawdau o hyd safle Trawsfynydd yn cael ei gydnabod yn ddomestig ac yn rhyngwladol ar draws y diwydiant niwclear ac mae'n ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith caled a'n hymroddiad parhaus gan ein gweithlu medrus iawn a'n cadwyn gyflenwi.'*

Byddem yn hapus iawn i hwyluso ymweliad safle i Drawsfynydd i unrhyw Gynghorydd sydd yn awyddus i weld y gwaith sydd yn mynd rhagddo ac i gyfarfod y tîm sydd yn gwneud y gwaith.

Mae 190 yn gweithio i NRS ar safle Trawsfynydd ar hyn o bryd. Mae 100 yn ychwanegol yn cael eu comisiynu drwy gytundebau. Disgwylir i oddeutu 120 ychwanegol o weithiwyr fod ar y safle dros y tair blynedd nesaf tra bydd uchder adeilad yr adweithydd yn cael ei ostwng. Mae 93% o'r rhai sydd yn gweithio i NRS ar safle Trawsfynydd yn byw yn unai Gwynedd, Môn, neu Sir Conwy. Mae cyfleoedd cyflogaeth amgen i'r gweithwyr hyn yn brin iawn yng Ngwynedd.

Mae'r sgiliau a thechnegau arbenigol sydd wedi cael eu datblygu ar safle Trawsfynydd wedi derbyn cydnabyddiaeth Safle Arwain a Dysgu ar gyfer gwaith Dadgomisiynu Niwclear ar draws Prydain. Er fod y gweithlu wedi arbenigo yn y maes dadgomisiynu niwclear, ystyrir fod modd trosglwyddo llawer o'r sgiliau i wahanol swyddi o fewn y maes peirianneg, technoleg, gwyddoniaeth, adeiladu a rheoli. Oherwydd yr ansicrwydd am ddyfodol y safle a'r swyddi, dwi'n falch o ddweud fod Cyngor Gwynedd yn cydweithio efo partneriaid ar hyn o bryd er mwyn ceisio sefydlu parc gwyddoniaeth ar safle fyddai'n sicrhau fod gwaith o ansawdd yn parhau yn ardal Meirionnydd am genedlaethau. Datblygu Canolfan Arloesi tu allan i ffin y safle trwyddedig ydi'r bwriad, fyddai'n cynnwys gofod gwaith a dysgu gyda'r bwriad o sbarduno syniadau a chyfleoedd gwaith newydd i'r dyfodol. Er bydd yr achos busnes yn canolbwyntio ar uchafu'r cyfleoedd yn deillio o'r gwaith dadgomisiynu yn y tymor byr, mae diddordeb gan wahanol sectorau, sydd yn awyddus i wneud defnydd o'r sgiliau ac isadeiledd arbennig y safle, eisoes wedi cael ei ddatgan, megis Canolfan AI, Canolfan Ddata a canolfan sgiliau galwedigaethol i gefnogi buddsoddiadau sylweddol yn y rhanbarth.

Nid Cyngor Gwynedd fyddai'n gwneud penderfyniad os bydd gweithgaredd niwclear newydd yn digwydd ar safle Trawsfynydd yn y dyfodol. Mae cryn ansicrwydd am gyfeiriad polisi, cyllid a blaenoriaethau'r Llywodraeth yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd safle Trawsfynydd yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth a'r sector breifat ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn y dyfodol agos. Dyma pam fod cael cynlluniau am gyfleoedd gwaith amgen, fyddai o fewn ein rheolaeth i'r dyfodol yn allweddol.

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen**

Oes posib' cael diweddariad ynglŷn ag unrhyw drafodaethau mae'r Cyngor wedi gael gyda'r Llywodraeth ynglŷn â Ffordd Osgoi Llanbedr?

**Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

Hoffwn ddiolch yn fawr i Gynghorydd Gwynfor Owen am gyflwyno'r cwestiwn. Rydym yn deall ac yn cydnabod yn llawn y diddordeb sylweddol yn y mater hir sefydlog hwn y mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ceisio ei symud ymlaen yn rhagweithiol dros gyfnod o flynyddoedd.

Mae swyddogion o’r Cyngor yn parhau i arwain a chwarae rhan blaenllaw yn y gweithgor aml-asiantaeth sy’n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru i adnabod datrysiad trafnidiaeth i leddfu problemau traffig Llanbedr.

Mae cyfarfodydd misol o’r gweithgor sydd yn goruchwylio a monitro’r gwaith a cynnydd ar y prosiect wrth fynd drwy’r broses WelTAG yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. WelTAG yw Arweiniad Ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, sydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu a gwerthuso cynigion trafnidiaeth i’w hyrwyddo neu eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae dau brif bwrpas i WelTAG, sef i nodi’r cynllun mwyaf manteisiol a chaniatáu cymharu cynlluniau tebyg.

Fel rhan o’n cais am gymorth ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer parhau gyda’r gwaith yma yn Llanbedr ar gyfer eleni, nodwyd proffil ariannol ar gyfer costau’r cynllun cyfan. Os mai ffordd newydd fyddai’r datrysiad o ddilyn y broses WelTAG, rhagwelir y byddai’r gost oddeutu £32 miliwn. Nid yw’r cyllid yma wedi ei gadarnhau hyd yma.

Fel rhan o’r gwaith ymgysylltu parhaus mae digwyddiadau yn cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid lleol yn Llanbedr wrth i’r broses WelTAG fynd rhagddo. Rhagwelir y bydd yr un nesaf yn mis Medi er mwyn adrodd ar ganlyniadau argymhellion gwedd 2 o’r WelTAG. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei rannu gyda’r gymuned leol yn Llanbedr drwy newyddlen reolaidd. Mae gwybodaeth hefyd yn cael ei gyhoeddi a rhannu ar dudalen we benodol ar wefan y Cyngor. Llanbedr: Gwella trafnidiaeth

Fe wnaeth y Prif Weithredwr a minnau, ynghyd â Mabon ap Gwynfor AS, ar fore Mawrth y 17 o Fehefin gwrdd gyda Ken Skates yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth i drafod y cynllun ac yn fwy penodol y sefyllfa gyllidol i’w ariannu. Yn dilyn hyn mae llythyr wedi ei anfon ar y cyd gan y Prif Weithredwr a minnau at yr Ysgrifennydd Cabinet, ac rydym wedi rhannu copi gyda chi.

Mae’r llythyr yn mynegi pryder cyffredinol fod lefel buddsoddiad Llywodraeth Cymru yng nghynlluniau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd yn hollol annigonol ac annheg. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn bodloni disgwyliadau na gofynion ein cymunedau lleol nac yn wir yr uchelgais a nodir gan Lywodraeth Cymru ei hun mewn dogfennau strategol fel Llwybr Newydd. Yn benodol mae’r cwestiwn wedi ei ofyn, beth yw’r sefyllfa o ran argaeledd y cyllid a’r llwybr i gyflawni cynllun trafnidiaeth Llanbedr.

Fe wnaf sicrhau eich bod yn derbyn diweddariad pan rydym yn derbyn ymateb.

**(4) Cwestiwn y Cynghorydd Dawn Lynne Jones**

Gwynedd Blentyn Gyfeillgar

Mi fuaswn yn gwerthfawrogi ateb gan y ddau aelod cabinet mwyaf perthnasol, sef y Cynghorydd Menna Trenholme a'r Cynghorydd Dewi Jones, i adlewyrchu ysbryd y cwestiwn.

Dwi'n ymwybodol fod Cyngor Caerdydd yn ddinas sy'n blentyn-gyfeillgar. A nifer o gynghorau eraill erbyn hyn wedi cyrraedd y nod hwnnw neu'n gweithio tuag at y nod hwnnw. Yn amlwg mae bod yn oed-gyfeillgar yn bwysig i Wynedd, a finnau wedi cymryd bob cyfle ar hyd y blynyddoedd i alw i ni fod yn wirioneddol oed gyfeillgar – hynny yw yn gyfeillgar i bob oed.

Yn ysbryd y cwestiwn, mae angen i bob adran gydweithio a blaenoriaethu hawliau plentyn wrth wneud penderfyniadau, polisiau a strategaeth.

Lle ma Gwynedd yn sefyll ar y daith honno?

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones**

Diolch yn fawr am y cwestiwn gwerthfawr sy'n codi materion sylfaenol am rôl hawliau plant ym mywyd cyhoeddus Gwynedd.

Fel Aelod Cabinet dros Addysg rwyf yn cydnabod yn llwyr y pwysigrwydd o sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu ym mhob agwedd ar waith y Cyngor. Nid yw hyn yn ymwneud â statws na label yn unig, ond â diwylliant o wrando, cynnwys a pharchu plant fel dinasyddion llawn eu hawliau. Rwy'n credu bod Gwynedd ar daith gadarnhaol tuag at fod yn sir sy'n wirioneddol oed-gyfeillgar, ac yn un sy'n rhoi hawliau plant a phobl ifanc wrth galon popeth mae'n ei wneud.

Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau cadarnhaol o'r egwyddorion hyn ar waith. Rydym yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau drwy'r fforymau Llais Pobl Ifanc. Mae'r fforymau yma bellach wedi'u sefydlu ar draws y sir, gan roi llwyfan i bobl ifanc leisio'u barn, rhannu eu profiadau a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r fforymau'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, grwpiau ieuenctid a phartneriaid, ac yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion lleol ac allweddol, megis iechyd meddwl, trafnidiaeth, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd. Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r fforymau hyn eisoes wedi arwain at gamau gweithredu go iawn, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau penodol mewn cymunedau, dylanwadu ar gynnwys strategaethau ieuenctid, ac ehangu partneriaethau gyda gwasanaethau eraill fel iechyd a'r trydydd sector.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor mai cyfrifoldeb pob adran yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried wrth lunio polisïau, gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer Gwynedd sy'n wirioneddol gyfeillgar i blant – ac i bobl o bob oed.

**Ateb – Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme**

Diolch i'r Cynghorydd Dawn Lynne Jones am ei chwestiwn a'i diddordeb yn y maes pwysig hwn. Gwelais ymateb fy nghyd aelod Cabinet, Dewi Jones ac rwy'n cyd-fynd yn llwyr ag ef. Mae cynllun unicef, Child Friendly Cities yn un sydd yn dwyn egwyddorion rhagorol ac yn rhai yr ydym ni yn eu harddel eisoes. Mae rhoi'r egwyddorion ar waith yn gallu bod yn fwy heriol, wrth gwrs, ac mae'n dda gen i allu dweud bod cynlluniau fforwm ieuenctid wedi

dechrau yma yng Ngwynedd ac ein bod yn rhoi blaenoriaeth i hynny ar hyn o bryd. Tra fod cynllun Unicef yn benodol ar gyfer dinasoedd a bwrdeistrefi, gall Llywodraeth Leol arddel yr un gwerthoedd a gweithredu yn yr un modd ac mae'n fraint cael y cyfle adeiladol i wneud hynny. Diolch i'r Cynghorydd am roi y cyfle i ni gael dynnu sylw at y gwaith hwn.

**(5) Cwestiwn y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod yn ddiweddar am greu system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu bysiau a threnau ar hyd Cymru, ond y realiti yw bod yna broblemau a phryderon yn codi hefo hynny. Er enghraifft, mae llawer iawn o drigolion yn fy ward wedi dod ataf dros y misoedd diwethaf yn pryderu am wahanol faterion yn ymwneud gyda bysiau sy'n dod (neu oedd yn dod i Blaenau). Mae hyn yn cynnwys newid mewn gwasanaeth y T22, lle nad oes bws ym mynd at dafarn y Cwm ac mae hyn yn golygu taith bellach i drigolion (yn enwedig trigolion hŷn) i gyrraedd y safle'r bws ger y stesion. Mae newid mewn trefniant bws oedd yn arfer mynd o Flaenau i Manod o Ysgol y Moelwyn gyda newidiadau'r T22 hefyd wedi codi pryderon rhieni, a hefyd cafwyd ergyd mawr i bobl y dref pan waredwyd gwasanaeth bws y T19 oedd yn cysylltu Blaenau hefo Llandudno nôl yn Chwefror 2023 - er bod gwasanaeth trên yma, tydi o ddim yn cyflawni'r hyn oedd y bws yn gallu ei wneud, ac yn cael ei weld yn anaddas i'r anghenion lleol.

Er yr holl son gan y Llywodraeth am newid chwyldroadol gyda bysiau a thrafnidiaeth, gwaeth ydi pethau i bobl Blaenau.

Oes modd trafod datrysiadau ymhellach gyda'r Aelod Cabinet ar sut fedrwn fynd ati i ddatrys a dod o hyd i atebion i'r pryderon yma os gwelwch yn dda?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

Hoffwn ddiolch yn fawr i Cynghorydd ap Elwyn am ei gwestiwn ac am y cyswllt cyson gyda mi a swyddogion yr Adran ar ran ei etholwyr ynglŷn â materion trafnidiaeth yn ei ward.

Drwy gydweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, mae rhwydwaith bysiau lleol Gwynedd wedi bod yn destun adolygiad estynedig dros y ddwy flynedd diwethaf. Bwriad ac allbwn yr adolygiad oedd darparu'r lefel orau a mwyaf atyniadol posib o gyfleoedd i deithio ar y bws gan optimeiddio'r adnoddau prin sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno amserlenni a thocynnau teithio safonol yn seiliedig ar bellter. Mae hyn wedi ei gyflawni yn llwyddiannus ar y mwyafrif o'r rhwydwaith bellach, ac mae'n braf adrodd ei fod wedi arwain at berfformiad cadarnhaol a chalonogol o ran defnydd. Mae hyn mewn cyd-destun lle mae defnydd bysiau yn gyffredinol wedi bod yn gostwng yn barhaus ar draws Cymru ers yr 1980au.

Rydym yn parhau yn ein hymdrechion i ddarparu a chynnal y lefel gorau posib o wasanaethau bws cyhoeddus ar draws Gwynedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Mewn cyd-destun a natur gwledig ac estynedig y Sir rydym o'r farn fod y cyfleoedd i deithio ar draws Gwynedd yn cymharu'n dda a ffafriol gydag ardaloedd gwledig tebyg arall.

Mae Blaenau yn cael ei wasanaethu gan gwasanaeth arloesol bysiau trydan y T22. Mae'r gwasanaeth rhwng Caernarfon-Porthmadog-Blaenau Ffestiniog yn cynnig cyfleoedd teithio atyniadol, dibynadwy o safon gyda bysiau trydan modern. Mae gwasanaeth bws G25 yn darparu cyfleoedd teithio lleol o fewn y dre.

Yn ogystal â'r bysiau lleol, mae Blaenau hefyd wrth gwrs yn cael ei wasanaethu gan reilffordd fyd-enwog Dyffryn Conwy. Mae'r rheilffordd yma yn cael ei gydnabod, yn ogystal â dull o deithio, fel atyniad yn ei hunan i ymwelwyr yn ogystal â trigolion lleol drwy fod yn un o'r siwrneiau trên fwyaf golygfaol unrhyw le yn y byd.

Yn anffodus, fel sydd wedi ei rannu eisoes, mae'r adnodd o ran gyrwyr a bysiau sydd ar gael wedi ei optimeiddio gyda gwasanaeth y T22. Mae cyfyngiad wrth gwrs ar beth gellir ei ddarparu gyda'r adnodd sydd ar gael ac, wedi edrych ar y galwadau ychwanegol sydd wedi eu gwneud, does dim modd cyfarch rhain ar hyn o bryd. Rydym wastad yn edrych am gyfleoedd i gwrdd  â dymuniadau a dyheadau lleol ond yn anffodus ac anochel ni fydd hyn yn bosib ar bob achlysur.

O ran y ddarpariaeth trafnidiaeth ysgolion lleol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg, mae'n ofynnol i gyfeiriad cartref fod yn fwy na 3 milltir o'r ysgol uwchradd  i dderbyn cludiant am ddim. Yn anffodus, mae'r pellter o Manod i Ysgol y Moelwyn yn llai na 3 milltir ac o'r herwydd does dim disgwyliad fod yr Awdurdod yn trefnu cludiant ar gyfer y siwrne yma. Mae'n bosib defnyddio bws T22 i'r ysgol yn y boreau, ond nifer fechan iawn sydd yn manteisio ar y gwasanaeth yma ar hyn o hyn.

Doedd gan y Cyngor yma ddim dylanwad ar y penderfyniad gan gwmni preifat i ddileu gwasanaeth y T19 rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno a oedd yn cael ei weithredu ar sail masnachol. Ar y pryd, fe wnaeth y cwmni ddatgan mai'r rheswm am ddod a'r gwasanaeth i ben oedd gan nad oedd yn gynaliadwy ar sail defnydd a bod hyn, yn anffodus, wedi bod yn gostwng.

Fel Cyngor, rydym yn gwneud yr achos yn barhaus i Lywodraeth Cymru fod angen i'r buddsoddiad mae nhw'n ei wneud mewn cludiant cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd, fod yn llawer mwy er mwyn dod unrhyw le yn agos i gwrdd â chyfarch eu gweledigaeth ac uchelgais. Yn anffodus, mae strategaethau a chynlluniau fel Llwybr Newydd (2021), y strategaeth trafnidiaeth cenedlaethol, yn codi disgwyliadau ond mae'r baich o ymateb, esbonio a chyfiawnhau be gellid ei ddarparu gyda'r arian mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu yn aml iawn yn cwympo ar awdurdodau lleol.

Mae'r diwydiant bysiau a sut mae gwasanaethau bws yng Nghymru yn cael eu darparu, cynnal a rheoli yn newid gan fod Trafnidiaeth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn edrych i gyflwyno system sydd wedi ei gynnal drwy model masnachfraint.  Y bwriad yw cael rhwydwaith cydlynol cenedlaethol sydd wedi ei reoli yn ei gyfanrwydd.  Mae'n aneglur eto sut effaith neu ddylanwad yn ymarferol fydd hyn yn ei gael.  Y gwirionedd yw, gan fod hi'n debygol fod lefel y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn debygol o fod yn gymharol gyda graddau cyfredol nad yw'r newid, o safbwynt defnyddwyr a darpar-ddefnyddwyr o leiaf, yn debygol o fod yn drawsnewidiol. Fe fydd y Cyngor yma yn ymgysylltu gydag ymagwedd cadarnhaol a gobeithiol i'r newid ond hefyd a disgwyliadau realistig o ran beth sy'n debygol o gael ei gyflawni.

Mae natur rhwydweithiau bysiau yn golygu ei fod yn deinamig ac yn destun newid. Ond, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr diweddar, does dim bwriad na sgôp yn y tymor byr i ystyried neu gyflwyno newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdano. Y gwirionedd anffodus ydi fod yr arian ychwanegol fyddai angen i gyflawni hyn ddim ar gael.

Cynnydd mewn defnydd yw'r sail mwyaf dylanwadol a chadarnhaol i gefnogi achosion busnes i gynnal a gwella darpariaeth. Mae'n anodd iawn neud yr achos os yw lefel y defnydd yn isel neu isel iawn. Dyw gwasanaethau bws yn y senario yma ddim yn amgylcheddol nag ychwaith ariannol gynaliadwy. . Er mwyn cynnal y lefel presennol o wasanaeth ac edrych i wella mae'n bwysig uchafu defnydd y gwasanaethau a cyfleoedd teithio sydd yn cael eu darparu. Mae'r dywediad Saesneg *use it or lose it* yn wir a perthnasol iawn yn y cyd-destun yma.

Mae rhwydweithiau cludiant cyhoeddus yn dibynnu ar lefel critigol o ddefnydd ar sail parhaus. Ble dyw hyn ddim yn bodoli mae'n annhebyg mae cludiant cyhoeddus yw'r datrysiad priodol. Mae hyn yn her amlwg mewn ardaloedd gwledig wrth gwrs pan, yn aml, does dim o'r galw critigol yna o bobl sydd am deithio ar yr un pryd ar yr un trywydd. Gyda hyn, tra'n nodi'r ffactorau cadarnhaol o ran y rhwydwaith bysiau lleol yng Ngwynedd rydym yn cydnabod yn llwyr na fydd yn bosib, na debyg priodol, i gwrdd â disgwyliadau, dymuniadau ac anghenion unigol a pawb. Ond hoffwn eich sicrhau a calonogi byddwn, gan barhau i gyd-weithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill sydd yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol cyfagos a'r cwmnïau bws ei hunain i ddarparu'r lefel gorau o wasanaeth posib.

Byddwn yn fodlon iawn i barhau'r sgwrs gyda Cyng. Ap Elwyn ond gobeithio fod yr uchod o ddefnydd yn cadarnhau'r sefyllfa gan osod y cyd-destun, heriau a cyfleoedd.

**(6) Cwestiwn y Cynghorydd Rhys Tudur**

O ran geiriad polisi iaith newydd addysg, i ba raddau y mae'r Aelod Cabinet yn cytuno y byddai

Nodi mai'r ysgol sydd i bennu beth sy'n cael ei ddysgu yn Saesneg yn drawsgwricwlaidd;
Cyfeirio at ddiffiniad o ysgolion Cymraeg yn unol â'r bil addysgyn hytrach na'r canllawiau anstatudol;
Mynegi bod y ganran o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer yr <u>holl ddisgyblion;</u>
Darparu mwy o fanylder yn yr hyn a ddisgwylir mewn Cynlluniau Cynydd;
A nodi fod yr holl weithgareddau allgyrsiol drwy'r Gymraeg, yn gwneud y polisi iaith yn fwy cadarn a eglur?

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones**

Rwy'n croesawu'r cyfle i gadarnhau rhai agweddau allweddol ar y Polisi Iaith Addysg drafft, ac i sicrhau eglurder ynghylch rhai materion penodol sydd wedi codi.

Yn gyntaf, o ran cynnwys Saesneg yn drawsgwricwlaidd, mae'r polisi yn nodi'n glir mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysg yn ysgolion Gwynedd, gyda'r Saesneg yn cael ei gyflwyno'n fwriadus a'i ddefnyddio'n briodol yn unol â datblygiad ieithyddol disgyblion.

Yn ail, rwy'n fodlon nodi bod y polisi'n cyfeirio'n benodol at fwriadau'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill, gan baratoi'r ffordd i'r Awdurdod gydymffurfio'n llawn â'r drefn statudol newydd o gategoreiddio ysgolion pan ddaw i rym.

Yn drydydd, mae'r polisi'n mynegi'n glir ganrannau ar gyfer y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys y nod o sicrhau o leiaf 80% o weithgareddau ysgol drwy'r Gymraeg yn y cynradd, ac o leiaf 70% yn yr uwchradd. Byddwn yn gweithio tuag at

unrhyw ofynion statudol yn unol â chynnwys Bil y Gymraeg all gymryd hyd a 5 mlynedd i ddod i rym.

O ran Cynlluniau Cynnydd, mae'r ddogfen eisoes yn nodi'r disgwyliadau ar ysgolion unigol a'u clystyrau i lunio cynlluniau datblygu clir a chytunedig gyda'r Awdurdod, gan gynnwys cyfnodau trosiannol a mesurau llwyddiant. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Yn olaf, rwy'n cydnabod bod y polisi'n gosod pwyslais cryf ar sicrhau bod gweithgareddau ysgol, gan gynnwys y rhai allgyrsiol, ar gael drwy'r iaith Gymraeg. Yn unol â'r Siarter Iaith bydd gweithgareddau allgyrsiol yn y Gymraeg.

Byddaf yn parhau i gefnogi'r gwaith o gryfhau'r Polisi Iaith Addysg, gan sicrhau cydbwysedd rhwng uchelgais ieithyddol, hyblygrwydd ymarferol, a chefnogaeth i'n hysgolion wrth iddynt weithredu'r polisi'n llwyddiannus.

**(7) Cwestiwn y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

Deallaf fod newidiad nid ansylweddol ar y gweill i'r Ffurflen gofrestru am dŷ cymdeithasol, sy'n golygu na fydd darpar denantiaid yn gallu nodi lle maent yn dymuno byw. Beth yw goblygiadau'r newid ? A yw hyn yn golygu troi cefn ar hawl pobl bregus i ddewis trigfan, ac a yw yn troi cefn ar Bolisi 'lleol' Gwynedd?

**Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cynghorydd Paul Rowlinson**

Nid oes unrhyw fwriad i newid y ffurflen gais mewn ffordd na fydd darpar denantiaid yn gallu nodi lle maent yn dymuno byw. Er bod mân addasiad wedi'i wneud i'r ffurflen gais yn ddiweddar i ofyn i unigolion roi tic yn erbyn lleoliad(au) y dymunent fyw (yn hytrach na'u rhifo), nid oes unrhyw newidiadau pellach ar y gweill. Mae'r ffurflen i'w gweld ar wefan y Cyngor ac fe welwch fod cwestiwn 15 yn gofyn i ddarpar denantiaid nodi lle maent yn dymuno byw. Mae ein polisi gosod tai hefyd i'w weld ar y wefan ac nid yw wedi newid o gwbl.